**Cyngor Bro Llanllwni  Adroddiad Cyfarfod Hydref 2024**

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, Llanllwni.
Roedd y Clerc wedi rhoi'r agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfodydd.

PLISMONA
Cyflwynwyd rhif cyswllt i'r clerc.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi.

GWEFAN LLANLLWNI
Roedd Adroddiadu'r cyfarfodydd misol yn cael eu gosod ar y wefan ac yn ymddangos yn y wasg.

HYFFORDDIANT DIFFIBRILYDD
Roedd y diffibrilion yn eu lle erbyn hyn a gobaith am hyfforddiant yn Neuadd yr Eglwys.

CWTERION A DŴR YN CRYNHOI AR Y FFYRDD
Mae swyddogion y Cyngor Sir a'n cynrychiolydd etholedig ar y Cyngor Sir wedi derbyn yr holl gwynion ar y pwnc a ddaeth i sylw'r Cyngor Bro.

TYLLAU AR HYD Y FFYRDD
Mae'r cynghorwyr am geisio trefnu cyfarfod gyda swyddogion i drafod yr amryw ddiffygion ar ffyrdd y plwyf.

GOLEUADAU SOLAR
Ni fu datblygiad pellach ynglŷn â'r goleuadau ger y cysgodfannau bws.

PWLL JAC – FFERM FELINDRE
Mae angen atgyweirio'r giât ar y llwybr cyhoeddus rhwng Pwll Jac a Fferm Felindre.

CYFRIF BANC LLOYDS
Mae angen i'r Clerc ymweld â changen Banc Lloyds yng Nghaerfyrddin. Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r cynghorwyr.

MAESYCRUGIAU
Mae'r arwydd i Maesycrugiau ger Pantllyn wedi cael ergyd ac angen ei ailosod.

BINIAU
Cafwyd cadarnhad mai dim ond y bin ger Plas Bach sydd ar ôl bellach o fewn y pentref a bod y Cyngor Sir wedi mynd â'r biniau i gyd heb unrhyw ymgynghori.
Penderfynwyd bod angen arwydd yn y lleoliadau lle nad oes biniau sef "mynd adref a'r sbwriel".

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 11 Tachwedd 2024 am 8yh.